Efallai na fyddwch chi'n sylwi ar newid graddol yn eich golwg. Syniad da felly yw cael prawf ar eich llygaid bob dwy flynedd o leiaf. Mae'n rhaid ichi wisgo sbectol neu lensys cyffwrdd bob amser wrth yrru, os oes amoch eu hangen er mwyn bodloni'r 'safonau golwg ar gyfer gyrru'.

Mae glawcoma'n datblygu'n araf ac yn effeithio i ddechrau ar eich golwg ymylol. Os byddwch yn sylwi ar symptomau, maen nhw'n gallu cynnwys golwg aneglur, neu weld cylchoedd yn lliwiau'r enfys o amgylch goleuadau llachar. Os byddwch yn datblygu glawcoma, gallai hynny effeithio ar eich gallu i yrru.

Diplopia yw pan fyddwch yn edrych ar un gwrthrych ond eich bod yn gweld dwy ddelwedd. Gall effeithio ar un llygad neu'r ddau. Mae'n bwysig cael archwiliad os oes gennych olwg dwbl, hyd yn oes os bydd yn mynd a dod, gan y gall effeithio ar eich gyrru.

Cymhlethdod yn sgil diabetes yw retinopathi diabetig. Mae'n cael ei achosi pan fydd lefelau siwgr uchel yn niweidio cefn y llygad. Gall achosi dallineb os caiff ei adael heb ei ddiagnosio a heb ei drin. Gall hynny wedyn effeithio ar eich gallu i yrru.

Pilenni ar y llygad yw pan fydd mannau cymylog yn datblygu ar y lens o fewn eich llygad gan arwain at olwg aneglur, niwlog ac at ddallineb yn y pen draw. Os oes pilenni ar eich llygaid, gallai hyn effeithio ar eich gallu i yrru.

Anhwylder cyffredin yw dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig â henaint (AMD) ac mae'n effeithio ar ran ganol eich golwg. Nid yw'n achosi dallineb llwyr ond mae'n gallu gwaethygu os na chaiff ei drin. Gall AMD beri nad yw'n ddiogel ichi yrru.